GWASANAETH ARCHIFAU ACHREDEDIG

ACCREDITED ARCHIVE SERVICE

Achrediad Gwasanaethau Archifau

Ffurflen gais

Mehefin 2022

Cynnwys

A. Manylion yr Ymgeisydd

B. Manylion y Gwasanaeth a'r Casgliad

ADRAN 1: Iechyd Sefydliadol

ADRAN 2: Casgliadau

ADRAN 3: Rhanddeiliaid a'u profiadau

DEFNYDDIWCH Y 'CANLLAWIAU I DDATBLYGU A LLENWI CAIS' I'CH HELPU I LENWI'R FFURFLEN HON.

A. CYFLWYNIAD I'CH GWASANAETH ARCHIFAU

A.1 Manylion yr Ymgeisydd

Cwestiwn 1. Eich manylion

Enw'r corff llywodraethu:	
Cyfeiriad y corff llywodraethu:	
Cod post:	
Enw'r Gwasanaeth Archifau: **(hwn fydd yr enw ar dystysgrif yr Achrediad)**	
Rhif gwasanaeth archifau achrededig (os yw'n berthnasol)	
Cod(au) ARCHON:	
Gwefan:	
Gwasanaethau ar y cyd: Nodwch i ba sefydliadau yr ydych yn darparu gwasanaeth archifau, a nodwch ar ba sail y darperir y gwasanaeth.	
Rhif amgueddfa achrededig: ***(os yw'n berthnasol)***	

Cwestiwn 2: Nodwch pa wasanaeth archif sy'n disgrifio eich sefydliad chi orau.

Mae disgrifiad o bob un o'r mathau o wasanaethau archifau ar gael yn y tabl graddfeydd ar gyfer y cynllun hwn.

Gwasanaeth Archifau Awdurdod Lleol Math 1 ☐

Gwasanaeth Archifau Awdurdod Lleol Math 2 ☐

Gwasanaeth Archifau Arall yn y Sector Cyhoeddus Math 1 ☐

Gwasanaeth Archifau Arall yn y Sector Cyhoeddus Math 2 ☐

Gwasanaeth Archifau Sector Preifat a Thrydydd Sector Math 1 ☐

Gwasanaeth Archifau Sector Preifat a Thrydydd Sector Math 2 ☐

Gwasanaeth Archifau Sector Preifat a Thrydydd Sector Math 3 ☐

Cwestiwn 3: Prif gysylltiadau:

Dylid nodi yma fanylion aelod staff uchaf y gwasanaeth archifau.

Teitl:	
Enw cyntaf:	
Enw olaf:	
Teitl y swydd:	
Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:	
Cod post:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad ebost:	

Manylion cyswllt ychwanegol

Os hoffech ychwanegu cyswllt ychwanegol at ddibenion gweinyddol megis trefnu ymweliadau asesu neu wybodaeth atodol ar y ffurflen, yna rhowch eu manylion yma.

Teitl:	
Enw cyntaf:	

Enw olaf:	
Teitl y swydd:	
Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:	
Cod post:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad ebost:	

Oherwydd cyflymder a chost, mae'n well gennym ni gysylltu drwy e-bost. Os ydych chi'n dymuno gohebiaeth drwy'r post, drwy gyfeiriad y prif wasanaeth archifau, ticiwch y blwch hwn: □

Cwestiwn 4: Os dymunwch gael gohebiaeth ar ffurfiau eraill, nodwch hynny yma.

Ffurfiau eraill:

A.2 Manylion y Gwasanaeth a'r Casgliad

Sylwer

Dylid rhoi ystadegau a gwybodaeth ariannol y gwasanaeth archifau ar gyfer yr un flwyddyn drwy gydol y ffurflen a dylai hon fod y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf. Mae Adran 1 yn gofyn am sail eich blwyddyn ariannol.

Cwestiwn 5: Nodwch fanylion maint eich casgliad o archifau drwy ddefnyddio un o'r canlynol:

☐ Eitemau ☐ Metrau llinol ☐ Metrau ciwbig

Pa ddull bynnag o fesur a ddewiswch, dylech ddefnyddio hwnnw yn y ffurflen drwyddi draw.

Cwestiwn 6: Os yw'n berthnasol, nodwch faint eich casgliadau sy'n ddigidol-anedig:

☐ Gigabeitiau NEU

☐ Terabeitiau NEU ☐ Petabeitiau

Os oes angen i chi roi esboniad ynghylch unrhyw un o'r ffigyrau yng nghwestiwn 5 neu 6, gwnewch hynny yma:

Cwestiwn 7: Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwyster o ran maint y casgliad archifau ond eich bod wedi gofyn am gyngor gan eich corff asesu, nodwch yma pa gorff asesu y cawsoch gyngor ganddynt:

Cwestiwn 8: Rhowch ddisgrifiad byr o'r fformatau corfforol yn eich casgliad. Ychwanegwch unrhyw fformat nad yw'n ymddangos yn y rhestr.

Fformat	**Disgrifiad (dim mwy na 100 gair yr un)**
Papur	
Memrwn	
Ffotograffau	
Clyweledol	
Cyfryngau electronig	
Mapiau	

Deunydd delweddau symudol	

Cwestiwn 9: Sut caiff y gwasanaethau canlynol eu darparu?

O ran 'dulliau darparu' dewiswch o'r isod:

- **Darperir gan y gwasanaeth archifau**
- **Darperir mewn man arall yn y corff neu'r cyrff llywodraethu**
- **Darperir gan fudiad/partneriaeth allanol**
- **Ni ddarperir y gwasanaeth**
- **Wedi'i gynllunio o fewn 5 mlynedd**

Nod y cwestiwn hwn yw adeiladu trosolwg o'r gwasanaeth ac nid yw, o anghenraid, yn gynhwysfawr. Nodwch unrhyw wasanaethau a ddarparwch nad ydynt wedi'u rhestru.

Gwasanaeth	**Dull darparu**	**Disgrifiad**
Gwasanaethau Archifau		
Rheoli Cofnodion		
Arweinydd corfforaethol ar Ryddid Gwybodaeth		
Arweinydd corfforaethol ar Ddiogelu Data		
Rheoli Cofnodion Electronig		
Gofal a chadwraeth casgliadau		
Cadwraeth adferol yr archifau		
Cadwraeth ataliol yr archifau		
Digido archifau ffisegol		
Ystorfa ddigidol i archifau sy'n ddigidol-anedig		

Rhanddeiliaid a'u profiadau		
Mynediad at gopïau dirprwyol o archifau		
Allgymorth/gwaith datblygu cynulleidfa		
Gwasanaeth ymchwil i staff y corff llywodraethu		
Gwasanaeth ymchwil i ddefnyddwyr allanol		
Gwasanaethau dysgu		
Deunydd cyfeirio printiedig		
Trwyddedu defnydd		

Cwestiwn 10: Nodwch fanylion y defnydd a wna'r cyhoedd o'ch gwasanaeth archifau fel a ganlyn:

	Defnydd o'r adnoddau	**A yw'r ffigyrau ar gyfer defnyddio'r archifau yn unig? Ydynt/Nac ydynt**	**Cyfanswm**	**Gwybodaeth ychwanegol**
1	Cyfanswm nifer yr ymwelwyr o bob math â'r safle yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
2	O'r ymwelwyr uchod, faint ohonynt oedd yn defnyddio'r adnoddau archifau at ddiben ymchwil uniongyrchol (yn hytrach na gweithgareddau megis ymweliadau grwpiau ac arddangosfeydd)?			
3	Nifer yr eitemau a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			Dull cyfrifo a ddefnyddiwyd:
4	Nifer ymddangosiadau mewn arddangosfeydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
	Nifer y digwyddiadau dysgu a			

5	gynhaliwyd yn fewnol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
6	Nifer y digwyddiadau dysgu a gynhaliwyd yn allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
7	Cyfanswm presenoldeb mewn digwyddiadau dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
8	Ymholiadau a dderbyniwyd drwy'r post, drwy e-bost a thros y ffôn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
9	Nifer yr ymweliadau â'r wefan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
10	Amcan o nifer yr argraffiadau tudalen a'r ymweliadau gan ddefnyddwyr ag adnoddau ymchwilio ar-lein y gwasanaethau archifau dan nawdd darparwyr masnachol yn y flwyddyn ddiwethaf			
11	Amcan o nifer yr argraffiadau tudalen a'r ymweliadau gan ddefnyddwyr â chatalogau ar-lein y gwasanaeth archifau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
12	Nifer o weithiau yr oedd deunydd delweddau symudol wedi cyfrannu at ddangosiadau ffilm			

Cwestiwn 11: Nodwch fanylion unrhyw ddefnydd a wneir o'ch gwasanaeth archifau nad yw'n dod o dan y defnydd cyhoeddus uchod.

Enghreifftiau o hyn fyddai gweithgareddau hyrwyddo mewnol, cyhoeddusrwydd treftadaeth corfforaethol, cynhyrchu ffeiliau at ddefnydd y sefydliad yn fewnol, teithiau ar gyfer staff newydd ayb. Gadewch y tabl hwn yn wag os nad yw'n berthnasol i'ch gwasanaeth.

	Defnydd o'r adnoddau	**A yw'r ffigyrau ar gyfer defnydd o'r archifau yn unig? Ydynt/Nac ydynt**	**Cyfanswm**	**Gwybodaeth ychwanegol**
1	Cyfanswm nifer yr ymwelwyr o bob math â'r safle yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
2	O'r ymwelwyr uchod, faint ohonynt oedd yn defnyddio'r adnoddau archifol at ddiben eu hastudiaethau eu hunain?			
3	Nifer yr eitemau a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
4	Nifer ymddangosiadau arddangosfeydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
5	Nifer y digwyddiadau dysgu a gynhaliwyd yn fewnol yn ystod y			

	flwyddyn ddiwethaf			
6	Nifer y digwyddiadau dysgu a gynhaliwyd yn allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
7	Cyfanswm presenoldeb mewn digwyddiadau dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
8	Ymholiadau a dderbyniwyd drwy'r post, drwy e-bost a thros y ffôn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
9	Nifer yr ymweliadau â'r wefan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			
10	Amcan o nifer yr argraffiadau tudalen a'r ymweliadau gan ddefnyddwyr â chatalogau ar-lein y gwasanaeth archifau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf			

Cwestiwn 12: Os yw'r flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf wedi bod yn anarferol o safbwynt cau neu gyflwyno gwasanaeth newydd neu unrhyw ffactor arall sydd wedi cael effaith fawr ar y gwasanaeth, nodwch hynny isod (dim mwy na 300 gair):

A.3 Cyllido'r gwasanaeth archifau

Cwestiwn 13: Rhowch syniad bras o dan ba un o'r bandiau eang isod y daw cyfanswm cyllideb blynyddol y gwasanaeth archifau. Os nad yw'n bosibl gwahanu cyllideb y gwasanaeth archifau o wasanaeth mwy o faint y mae'r archifau yn rhan ohono (e.e. llyfrgell), nodwch gyllideb y gwasanaeth mwy o faint:

O dan £50,000 y flwyddyn	
£50,001-£100,000 y flwyddyn	
£100,001-£250,000 y flwyddyn	
£250,001-£500,000 y flwyddyn	
£500,000- £750,000 y flwyddyn	
£750,000-£1 miliwn y flwyddyn	
£1miliwn-£2 filiwn y flwyddyn	
Dros £2 filiwn y flwyddyn	

GWASANAETHAU SYDD AG ACHREDIAD EISOES: CYNNYDD YN ERBYN CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL NEU GAMAU I WELLA

Disgrifiwch y cynnydd y mae'r gwasanaeth archifau wedi'i wneud tuag at unrhyw Gamau Gofynnol ac/neu Gamau i Wella a nodwyd yn yr adborth fel rhan o'r asesiad ar gyfer Achrediad Gwasanaethau Archifau ac na chawsant eu cadarnhau maes o law fel rhai a gwblhawyd yn ystod adolygiad ffurfiol.

Cam Gweithredu Gofynnol neu Gam Gweithredu i Wella	Y gofyniad (gofynion) neu is-ofyniad cysylltiedig	Cynnydd tuag at y cam gweithredu

ADRAN 1: IECHYD SEFYDLIADOL

1.1 Datganiad Cenhadaeth

Cwestiwn 14: Beth yw datganiad cenhadaeth eich gwasanaeth archifau? (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 15: Cyflwynwch gopi o'r ddogfen/dogfennau y cyhoeddwyd y cyhoeddwyd y datganiad cenhadaeth ynddi/ynddynt a'u nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

1.2 Strwythurau llywodraethu a rheoli

Cwestiwn 16: Beth yw enw'r corff llywodraethu neu'r gwasanaeth archifau?

Cwestiwn 17: Disgrifiwch statws cyfreithiol y gwasanaeth archifau neu'r rhiant-gorff os nad oes gan yr archifau statws cyfreithiol ar wahân. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 18: A yw'r gwasanaeth archifau, neu'i riant-gorff/gyrff, yn gofrestredig gyda Thŷ'r Cwmnïau?

☐ Ydi ☐ Nac ydi

Os mai 'ydi' yw'r ateb, nodwch rif y cwmni:

Cwestiwn 19: A yw'r gwasanaeth archifau, neu'i riant-gorff/gyrff, yn gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau (Cymru a Lloegr) neu Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban?

☐ Ydi ☐ Nac ydi

Os mai 'ydi' yw'r ateb, nodwch rif yr elusen:

Cwestiwn 20: Darparwch gopi o gyfansoddiad cyfredol eich gwasanaeth archifau (os yw'n berthnasol) a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

Cwestiwn 21: Pa un o'r canlynol sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o drefniadau rheoli eich system archifau?

☐	mae'r corff llywodraethu yn rheoli'r gwasanaeth archifau ac nid oes ganddo gylch gwaith ehangach.
☐	mae'r corff llywodraethu wedi sefydlu pwyllgor(au) rheoli i reoli'r gwasanaeth archifau.
☐	mae corff rheoli cyfreithiol ar wahân yn rheoli'r gwasanaeth archifau.
☐	mae gan y corff llywodraethu gylch gwaith ehangach, e.e. awdurdod lleol/corff arall yn y sector cyhoeddus, busnes neu elusen sydd ag amcanion ehangach.
☐	arall

Cwestiwn 22: Gan gyfeirio at y canllawiau, disgrifiwch drefniadau rheoli eich gwasanaeth archifau. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 23: Cyflwynwch dystiolaeth o'r trefniadau hyn, gan restru'r dogfennau yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon. Dylai'r rhain gynnwys organogram neu siart llif sy'n dangos sut y mae rheolaeth y gwasanaeth archifau yn gysylltiedig â'r corff llywodraethu.

Cwestiwn 24. Ydych chi'n disgwyl unrhyw newid mawr i'r llywodraethu yn y tair blynedd nesaf? Os ydych, esboniwch yma.

1.3 Blaengynllunio

Cwestiwn 25. Darparwch gopi o'r Blaengynllun a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

Cwestiwn 26. Os yw eich tystiolaeth mewn perthynas â'r gofyniad hwn wedi'i hintegreiddio gyda dogfen arall, neu wedi'i rhannu rhwng dwy neu ragor o ddogfennau, wnewch chi nodi'r manylion isod. (dim mwy na 100 gair)

Cwestiwn 27: Amlinellwch sut y mae eich Blaengynllun wedi cael ei ddatblygu – croesgyfeiriwch at Gynlluniau Rheoli Casgliadau a Mynediad fel ag y bo'n briodol. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 28: Cadarnhewch ddyddiad adolygu nesaf eich Blaengynllun

Cwestiwn 29: Disgrifiwch sut y caiff y cynnydd tuag at gyflawni amcanion allweddol eich Blaengynllun ei fesur. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 30: I ba raddau y mae eich Blaengynllun wedi'i gyflawni, a'r rhesymau pam nad oedd unrhyw elfennau ohono wedi'u cyflawni. (dim mwy na 300 gair)

1.4 Adnoddau: lle a storfeydd

Cwestiwn 31: Nodwch faint eich daliad archifol. Dylid darparu'r wybodaeth naill ai mewn metrau ciwbig (hynny fyddai orau gennym) neu fetrau llinol ar gyfer deunydd analog, ac eithrio ffilm, nifer yr eitemau ar gyfer ffilmiau analog, ac mewn gigabeitiau neu terabeitiau neu petabeitiau (yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf addas i'ch casgliadau) ar gyfer daliadau digidol. Nodwch yr uned fesur ar gyfer pob cofnod. Dylai'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer pob cofnod gyfateb i'r uned fesur a ddefnyddiwyd drwy'r cais. Trowch at yr Eirfa i gael eglurhad o'r diffiniadau.

	Cyfanswm y daliadau ffisegol	***Cyfanswm y daliadau digidol-anedig***
Daliadau archifol		
Daliadau Rheoli Cofnodion		
Daliadau eraill e.e. gwrthrychau		
Cyfanswm y daliadau		
Storfeydd sy'n wag		
Cyfanswm y capasiti		

Cwestiwn 32. Rhowch amcan o sawl blwyddyn o gapasiti ehangu sydd yn eich mangre presennol gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir. Os oes gennych lai na 5 mlynedd o gapasiti ehangu, yna esboniwch eich strategaeth ar gyfer darparu lle addas ychwanegol.

Capasiti i ehangu ☐ **mlynedd**

Strategaeth Ehangu (dim mwy na 200 gair)**:**

Cwestiwn 33. Rhowch fanylion am bob safle yr ydych yn rhoi mynediad i'ch cyhoedd neu'n storio archifau analog:

Nifer y safle-oedd	Enw a chyfeiriad y safle	Ai storio neu fynediad ac ymgysylltu â'r casgliadau yn unig - neu'r ddau beth	Telerau meddiannaeth[1]	P'un ai'r unig feddiannydd neu'n rhannu[2]	% o'r casgliadau sydd yn y safle	Unrhyw storio arbenigol ar y safle	Dyddiad arfaethedig terfynu'r feddiannaeth
1							
2							
3							
4							
5							

Cwestiwn 34. Esboniwch eich trefniadau presennol ar gyfer storio cofnodion digidol a sut mae hyn yn cyrraedd anghenion presennol a dyfodol eich casgliadau. (dim mwy na 400 gair)

Cwestiwn 35. Manylwch ar unrhyw ddarpariaeth storfa ddigidol gan drydydd parti i'ch gwasanaeth, gan gynnwys dyddiad terfyn (MM/BBBB) pob trefniant contract. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 36. Lle bo'n berthnasol, esboniwch drefniadau ymadael â'r darparw(y)r a'ch cynlluniau ar gyfer diwedd y contract. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 37: A oes unrhyw ffactorau arwyddocaol eraill a allai effeithio ar allu eich gwasanaeth i ddarparu storio ar gyfer casgliadau digidol yn ystod y tair blynedd nesaf? (dim mwy na 300 gair)

[1] E.e. Mewn perchenogaeth rhydd-ddaliad, ar brydles, llogi dros dro neu drwyddedig, caniatâd i feddiannu, datblygiad PFI.

[2] Os ydych chi'n rhannu'r ddeiliadaeth, enwch y deiliaid eraill.

Cwestiwn 38. Nodwch a yw eich gwasanaeth archif neu'ch darparwyr trydydd parti ar gyfleusterau storfa ddigidol yn ardystiedig yn erbyn safon allanol cymeradwy.

Nid yw ardystiad allanol yn ofynnol ar gyfer Achrediad Gwasanaeth Archif ond mi all gynnig tystiolaeth werthfawr o gynaliadwyedd a rheoli risg.

Ardystiad	**Gwasanaeth**	**Darparwr Allanol**	**Dyddiad Adolygu**
ISO16363 ardystiad allanol			
ISO16363 adolygiad cymheiriaid			
Ardystiad allanol Core TrustSeal			
Adolygiad cymheiriaid Core TrustSeal			
Ffurfiau ardystio eraill (manylwch)			

Cwestiwn 39: Disgrifiwch sut y mae'r safleoedd lle'r ydych wedi darparu mynediad i'r cyhoedd yn bodloni capasiti ac anghenion eich nifer ddisgwyliedig o ddefnyddwyr. Dylai hyn gynnwys ymchwilwyr unigol a grwpiau o ymwelwyr lle bo hynny'n berthnasol. (dim mwy na 400 gair)

Cwestiwn 40: Disgrifiwch sut y mae safle'r gwasanaeth yn bodloni anghenion eich gweithlu ac unrhyw gynllunio, gan nodi'r cyfyngiadau y mae eich safle presennol yn eu gosod arnoch. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 41: Disgrifiwch sut yr ydych yn cynllunio tuag at ddyddiadau olaf pob trefniant meddiannu ar gyfer adeiladau, a nodwch fanylion y camau rheoli cytunedig – cyfeiriwch at y Blaengynllun, fel ag y bo'n briodol. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 42. A oes unrhyw ffactorau arwyddocaol eraill a allai effeithio ar adeiladau a gofod eich gwasanaeth dros y tair blynedd nesaf? (dim mwy na 300 gair)

1.5 Adnoddau: cyllid

I gael Achrediad, mae angen i wasanaethau archifau ddangos sail ariannol gadarn drwy gyflwyno dwy flynedd o gyfrifon perthnasol sy'n briodol i'w trefniadau cyfansoddiadol.

Mae'n rhaid i sefydliadau sydd â phwyllgor rheoli cyfreithiol ar wahân gyflwyno cyfrifon o'r sefydliad hwnnw yn ogystal ag o'r corff llywodraethu.

Cwestiwn 43: Disgrifiwch pryd y mae eich blwyddyn ariannol yn dechrau ac yn gorffen. E.e. mis Ebrill tan fis Mawrth, Gorffennaf tan Fehefin.

Cwestiwn 44: A yw'r gwasanaeth archifau wedi bod yn gweithredu am lai na dwy flynedd ariannol o dan y strwythur llywodraethu presennol?

☐ ydi ☐ nac ydi

Cwestiwn 45: Os mai 'ydi' oedd eich ateb, nodwch sut y byddwch yn tystiolaethu i'r sail ariannol am y ddwy flwyddyn ariannol lawn (dim mwy na 100 o eiriau)**. Cyflwynwch y dystiolaeth hon a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.**

Cwestiwn 46: Os mai 'na' oedd eich ateb, cyflwynwch gopïau o'r dogfennau priodol sy'n dangos dwy flynedd o sylfaen ariannol cadarn ar gyfer y gwasanaeth archifau (atodwch gopi electronig a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth)

Cwestiwn 47: Disgrifiwch y rôl y mae rheolwyr y gwasanaeth archifau'n ei chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau ariannol a rheoli'r gyllideb, sy'n berthnasol i'r gwasanaeth archifau. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 48: Esboniwch eich cyllidebau gwasanaeth ar gyfer cadwraeth ddigidol lle'n briodol i genhadaeth a phwrpas eich gwasanaeth archif. Os yw'r ariannu yn dod o du allan cyllid y gwasanaeth, disgrifiwch rôl rheolwyr y gwasanaeth archif ym mhrosesau penderfynu arianol sy'n berthnasol i gadwraeth ddigidol. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 49: Rhowch ddadansoddiad dangosol o'ch ffynonellau o incwm dros y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf.

Math o gyllid	Enw'r Ffynhonnell	% o gyfanswm yr incwm
Corff llywodraethu		
Llywodraeth ganol		
Llywodraeth – arall		
Awdurdod lleol		
Addysg Uwch		
Cronfa Dreftadaeth y Loteri		
Cyngor Celfyddydau		
Y Loteri Fawr		
Ail-godi tâl		
Wedi'i ennill		
Buddsoddiad preifat		
Arall		

Cwestiwn 50: A yw'r dadansoddiad hwn yn gynrychioladol o'ch patrymau incwm dros y tair blynedd diwethaf? Eglurwch eich ateb. (Dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 51: A ydych yn rhagweld unrhyw newidiadau mawr i'ch cyllid craidd yn ystod y ddwy flynedd nesaf a sut mae'r gwasanaeth yn cynllunio i ymateb i'r newidiadau hyn? (Dim mwy na 200 gair)

1.6 Adnoddau: y gweithlu

Cwestiwn 52: Cyflwynwch gopi o siart y gweithlu, yn unol â'r disgrifiad yn y canllawiau. Peidiwch ag enwi swydd-ddeiliaid unigol. (atodwch gopi a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth)

Os oes gennych unrhyw sylwadau er mwyn egluro'r siart a/neu ddynodi cyfraddau o amser staff, nodwch eich sylwadau yma (dim mwy na 300 gair):

Staff

Cwestiwn 53: Cadarnhewch eich bod yn cyflogi un neu ragor o staff sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol. Os nad ydych yn cyflogi staff proffesiynol, esboniwch sut yr ydych yn bodloni'r gofyniad ar gyfer lefelau priodol o gyngor archifau a chadwraeth proffesiynol i'ch gwasanaeth (dim mwy na 200 gair).

Cwestiwn 54: Cyflwynwch gopi o broffil rôl a chyfrifoldebau uwch-reolwr eich gwasanaeth. (atodwch gopi electronig a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth.)

Cwestiwn 55: Nodwch y swydd(i) â'r prif gyfrifoldebau dros ddatblygiad capasiti cadwraeth ddigidol eich gwasanaeth archif, lle'n briodol i'ch cenhadaeth a'ch pwrpas. Os yw'r cyfrifoldeb yn gorwedd tu allan i'r gwasanaeth archif, digrifiwch rôl rheolwyr y gwasanaeth archif yn y broses penderfynu ynghylch cadwraeth ddigidol (dim mwy na 200 gair).

Cwestiwn 56: Esboniwch unrhyw swyddi gwag neu rai sydd wedi'u rhewi neu unrhyw newid arfaethedig yn y staff sy'n effeithio ar y gwasanaeth archif ac sydd eisoes ar y gweill neu wedi cytuno arnynt. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 57: Cadarnhewch fod gan bob gweithiwr cyflogedig gontract cyflogaeth sydd wedi'i lofnodi a dogfennaeth sy'n gosod allan eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u disgwyliadau. ☐

Cwestiwn 58: Disgrifiwch y mathau o gyfleoedd datblygu a gaiff eu cynnig ar hyn o bryd i interniaid a staff eich gwasanaeth archifau. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 59: Disgrifiwch sut yr ydych chi'n sicrhau fod staff proffesiynol yn meddu ar gymwysterau priodol ar adeg eu penodi. Mae hyn yn cynnwys staff cyflogedig a chontractwyr (dim mwy na 200 gair).

Rheoli a datblygu'r gweithlu

Cwestiwn 60: Nodwch a yw eich gwasanaeth archifau, neu'r rhiant-sefydliad, yn meddu ar ddyfarniadau/achrediad datblygu sefydliadol a ddilyswyd yn allanol. Nid yw'r rhain yn angenrheidiol ar gyfer yr Achrediad Gwasanaethau Archifau ond maent yn helpu i ddangos fod gofynion y safon yn cael eu bodloni. (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Gwobr	Gwasanaeth	Rhiant-sefydliad	Dyddiad adolygu
Buddsoddwyr mewn Pobl	☐	☐	
Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr	☐	☐	
Arall	☐	☐	

Os mai 'arall' oedd eich ateb, nodwch y manylion yma: (dim mwy na 100 gair)

C61 Pa bolisïau a gweithdrefnau sydd gennych ar waith ar gyfer cefnogi gweithlu amrywiol?

Rhowch fanylion unrhyw weithgaredd yr ydych yn ymgymryd ag ef i gynyddu cynwysoldeb

yn eich gweithgarwch recriwtio, a'ch staff a'ch cymorth gan wirfoddolwyr. Os manylir ar hyn mewn dogfen, rhowch gopi, neu cyfeiriwch at ddogfennau a lanlwythwyd mewn mannau eraill yn y cais hwn.

Cwestiwn 62: A yw pob aelod newydd o weithlu'r gwasanaeth archifau (sy'n derbyn tâl ac fel arall) yn cael hyfforddiant cychwynnol?

☐ ydynt ☐ nac ydynt

Cwestiwn 63: A yw pob aelod newydd o'r corff llywodraethu a'r pwyllgor(au) rheoli (sy'n derbyn tâl ac fel arall) yn cael cynnig hyfforddiant sy'n cyflwyno'r gwasanaeth archifau?

☐ ydynt ☐ nac ydynt

Os mai 'ydynt' oedd eich ateb, a yw'r hyfforddiant cychwynnol i uwch-reolwyr yn cynnwys cyflwyniad i wasanaeth archifau'r sefydliad?

☐ ydi ☐ nac ydi

Cwestiwn 64: Wrth i'ch gwasanaeth newid a datblygu, disgrifiwch sut ydych chi'n adnabod anghenion datblygu gweithlu'r gwasanaeth archif, e.e. wrth ystyried cynyddu uchafswm cadwraeth ddigidol, datblygu amrywiaeth a chynhwysiant? (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 65: Disgrifiwch y mathau o gyfleoedd datblygu sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gweithlu eich gwasanaeth archifau at y dyfodol. (dim mwy na 200 gair)

Gwirfoddolwyr

Cwestiwn 66: Disgrifiwch sut y caiff gwirfoddolwyr eu recriwtio, eu rheoli a'u cynorthwyo yn eu gwaith naill ai drwy lanlwytho dogfennau polisi megis polisïau gwirfoddoli a phroffiliau rôl neu, pan nad yw rhai o'r elfennau hyn mewn dogfennau, drwy eu disgrifio yma. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 67: Cadarnhewch fod gan bob gwirfoddolwr gytundeb a dogfennaeth sy'n gosod allan eu rôl fel gwirfoddolwr a'r disgwyliadau. ☐

Cwestiwn 68: Nodwch fanylion gwaith y gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf.

Maes gwaith y gwirfoddolwyr	**Niferoedd perthnasol**	**Cyfanswm bras o'r oriau y flwyddyn**

Cwestiwn 69: Disgrifiwch y mathau o gyfleoedd datblygu a gaiff eu cynnig ar hyn o bryd i wirfoddolwyr eich gwasanaeth archifau. (dim mwy na 200 gair)

ADRAN 2: CASGLIADAU

2.1 Polisïau Rheoli Casgliadau

Cwestiwn 70: Cyflwynwch gopi o'ch polisi/polisïau ar reoli casgliadau a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

NEU

Cwestiwn 71: Disgrifiwch sut yr ydych yn sicrhau dull cydgysylltiedig o weithredu eich gweithgarwch rheoli casgliadau, gan gynnwys y pedwar maes craidd o ddatblygu casgliadau, gwybodaeth am gasgliadau, gofal a chadwraeth a mynediad (dim mwy na 300 gair).

2.2 Datblygu Casgliadau

Gofyniad 2.2.1 Polisïau ar ddatblygu casgliadau

Cwestiwn 72: Cyflwynwch gopi o'ch polisi (neu gyfres o bolisïau) ar ddatblygu casgliadau a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon. Ar hyn o bryd nid oes model na thempled gorfodol ar gyfer polisïau casglu na datblygu casgliadau yn sector archifau'r Deyrnas Unedig.

Cwestiwn 73: Disgrifiwch sut mae cofnodion o'ch rhiant-gorff neu gyrff yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth archif, gan ystyried deunydd analog a digidol lle'n briodol. (dim mwy na 300 gair)

Gofyniad 2.2.2 Cynlluniau datblygu casgliadau

Cwestiwn 74: Cyflwynwch gopi o'ch cynllun ar gyfer datblygu casgliadau a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

C75 I ba raddau y mae'r casgliadau a gedwir gan eich gwasanaeth archifau yn adlewyrchu ehangder eich cylch gwaith casglu a'r cymunedau y mae'r archif wedi'i gyfansoddi i'w wasanaethu? Rhowch fanylion unrhyw weithgaredd yr ydych yn ymgymryd ag ef i gynyddu cynrychiololdeb casgliadau. Os manylir ar hyn mewn dogfen, rhowch gopi, neu cyfeiriwch at ddogfennau a lanlwythwyd mewn mannau eraill yn y cais hwn.

Cwestiwn 76: Nodwch sut y mae derbynion diweddar yn dangos eich cynlluniau

datblygu casgliadau ar waith. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 77: Amlinellwch unrhyw gyfnodau yn y 5 mlynedd diwethaf pan nad oedd eich gwasanaeth archif yn gallu derbyn deunydd oedd yn gymwys o fewn eich polisi datblygu, oherwydd maint, cymhlethdod neu fformat, gan gynnwys cofnodion digidol. Sylwch ar ganlyniad y cynnig ac unrhyw ystorfa amgen fe wnaethoch ei argymell (dim mwy na 300 gair).

Cwestiwn 78: Disgrifiwch y materion a'r risgiau allweddol sy'n ymwneud â statws cyfreithiol eich casgliadau, yn enwedig o safbwynt benthyciadau ac adneuon a etifeddwyd, tarddiad aneglur neu ddadleuol, ysbeilio neu geisiadau eraill am adferiad, a nodwch sut y rhoddir sylw i'r rhain (croesgyfeiriwch at flaengynlluniau perthnasol sydd wedi'u cyflwyno gyda'r cais hwn). (200 gair ar y mwyaf)

2.3 Gwybodaeth am y Casgliadau

Gofyniad 2.3.1 Polisi Gwybodaeth am y Casgliadau

Cwestiwn 79: Cyflwynwch gopi o'ch polisi (neu gyfres o bolisïau) ynghylch gwybodaeth am gasgliadau a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon. Nid oes un model na thempled safonol ar gyfer polisi gwybodaeth am gasgliadau. Bydd penderfynu ar y fformat yn dibynnu ar yr hyn sydd orau i'ch sefydliad chi.

Cwestiwn 80: Nodwch y safonau catalogio a ddefnyddir gan eich gwasanaeth ar hyn o bryd:

☐	ISAD(G) Llawn	☐	Safon fewnol, i gydymffurfio'n fras ag elfennau gorfodol ISAD(G)
☐	Elfennau gorfodol ISAD(G)	☐	Safon ddisgrifiadol gydnabyddedig ar gyfer cyfryngau eraill e.e. FIAF ar gyfer delwedd symudol (nodwch y manylion isod)
☐	Nid yw'r catalogio'n seiliedig ar safonau	☐	Arall

Cwestiwn 81: Os mai 'arall' oedd eich ateb, nodwch y manylion yma. (dim mwy na 100

gair)

Gofyniad 2.3.2 Cynlluniau gwybodaeth am gasgliadau

Cwestiwn 82: Cyflwynwch gopi o'ch cynllun ar gyfer gwybodaeth am gasgliadau a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

Cwestiwn 83: Disgrifiwch eich sefyllfa o ran catalogio gan ddefnyddio'r tabl isod. Os nad oes gennych yr union fanylion, rhowch amcangyfrif, a disgrifio sut y gwnaethoch chi gyrraedd at y ffigyrau hyn.

Sefyllfa o ran catalogio	**% o'r casgliad cyfan**
Wedi'i gatalogio'n llawn (y disgwyliad yw y bydd hyn yn unol ag elfennau gorfodol ISAD(g) fan lleiaf)	
Wedi'i gatalogio'n llawn (ond i safon is nag ISAD(g))	
Deunyddiau wedi'u rhestru mewn blychau neu mewn rhestrau bras, neu gasgliadau lle nad oes ond disgrifiadau lefel-casgliad ar eu cyfer yn unig.	
Casgliadau nad ydynt wedi'u rhestru o gwbl	

Cwestiwn 84: Os oes angen i chi esbonio ymhellach, gwnewch hynny isod (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 85: Pa % o'ch catalog sydd â chatalog llawn ar-lein? | |

Cwestiwn 84: Os hoffech ychwanegu esboniad pellach ynghylch catalogio ar-lein, gwnewch hynny yma. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 86: Os nad yw ISAD(G) yn briodol ar gyfer y casgliadau, nodwch isod y safon(au) disgrifiadol a ddefnyddiwyd. (dim mwy na 200 gair).

Gofyniad 2.3.3 Gweithdrefnau ar gyfer gwybodaeth am gasgliadau

Cwestiwn 88: Disgrifiwch y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer gwybodaeth am gasgliadau. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 89: Disgrifiwch sut y caiff y gweithdrefnau hyn eu cyfathrebu i'r gweithlu a'u monitro, er mwyn sicrhau rheolaeth dros ansawdd. (dim mwy na 200 gair)

Cwestiwn 90: Esboniwch sut mae gwybodaeth casgliadau ar gofnodion analog a digidol yn cael eu rheoli a'u hintegreiddio er budd y defnyddwyr, lle'n briodol i genhadaeth a phwrpas eich gwasanaeth (dim mwy na 200 gair).

2.4 Gofal a Chadwraeth Casgliadau

Gofyniad 2.4.1 Polisi gofal a chadwraeth casgliadau

Cwestiwn 91: Cyflwynwch gopi o'ch polisi ar ofal a chadwraeth casgliadau a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon. Nid oes un model na thempled safonol ar gyfer polisi gofal a chadwraeth casgliadau. Bydd penderfynu ar fformat yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf addas i'ch sefydliad chi. Ymdrinnir ag adfer yn dilyn trychineb a pharhau â'r busnes yn 2.4.4.

Gofyniad 2.4.2 Cynlluniau gofal a chadwraeth casgliadau

Cwestiwn 92: Cyflwynwch gopi o'ch cynllun ar gyfer gofal a chadwraeth casgliadau

a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

Cwestiwn 93: Disgrifiwch eich sefyllfa gyffredinol o ran gofalu am gasgliadau gan ddefnyddio'r tabl isod. Os nad oes gennych fanylion penodol rhowch amcangyfrif a disgrifiwch sut ydych wedi cyrraedd y ffigyrau hyn.

Sefyllfa o ran gofal casgliad	**%** (nid yw cyfanswm y golofn hon yn 100% bob amser)
Canran y daliadau analog â phecynnu eilaidd addas	
Canran y daliadau analog sy'n ansefydlog[3]	
Canran y daliadau analog â chopïau dirprwyol (digidol neu ficroffurf)	
Canran y daliadau digidol o fewn system gadw a reolir[4]	

Cwestiwn 94: Os oes angen esboniad pellach, nodwch hwnnw isod (dim mwy na 200 gair)

Gofyniad 2.4.3 Gweithdrefnau gofal rheolaidd am gasgliadau

Ymdrinnir ag adfer yn dilyn trychineb a pharhau â'r busnes yn 2.4.4.

Cwestiwn 95: Amlinellwch sut yr ydych wedi asesu a rheoli'r risgiau i'ch casgliadau. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 96: Rhestrwch y prif risgiau i'ch casgliadau analog ym mhob safle a sut yr ydych wedi ymdrin â'r risgiau hyn. Yn fwyaf penodol, hoffem gael gwybodaeth am ddiogelwch, risgiau tân a dŵr, ond ychwanegwch unrhyw risgiau perthnasol eraill.

Safle	**Risg**	**Cam gweithredu (dim mwy na 100 gair am bob risg)**

[3] Diffinnir 'ansefydlog' gan yr Arolwg Asesu Cadwraeth fel deunyddiau mewn cyflwr gwael neu gyflwr sy'n golygu nad oes modd eu defnyddio.

[4] System sy'n defnyddio'r model OAIS

Cwestiwn 97: Amlinellwch pa gyfrannau o'ch storfeydd archifau nad ydynt yn bodloni'n llawn PD5454:2012 neu BS4971/EN16893 a sut y rheolir y mannau hynny. Dylid cyfeirio at bob un o'r mannau storio a amlinellir uchod. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 98: Gan gyfeirio at y canllawiau, cyflwynwch gopïau o'ch cofnodion tymheredd a lleithder ar gyfer y 12 mis diwethaf.

Ynghlwm ☐

Cwestiwn 99: Os oes angen i chi esbonio unrhyw anghysonderau a gofnodwyd, nodwch hwy isod (dim mwy na 200 gair):

Cwestiwn 100: Gan gyfeirio at y canllawiau, aseswch lefel presennol gweithdrefn ddigidol eich gwasanaeth yn yr adrannau canlynol.
Sylwch ar sut ydych wedi cyrraedd yr asesiad hwn i bob ardal risg a'r heriau rydych wedi'u hadnabod wrth symud i lefel uwch.

Ardal Risg	**Lefel 0-4**	**Sylw** (dim mwy na 250 gair am bob ardal)
Storfa		
Uniondeb		
Rheoli		
Metadata		
Cynnwys		

Cwestiwn 101: Disgrifiwch sut y caiff eich gweithdrefnau cadwraeth ataliol eu cyfathrebu i'r gweithlu a'u monitro, er mwyn sicrhau rheolaeth dros ansawdd. (dim mwy na 200 gair)

Gofyniad 2.4.4 Cynllun a gweithdrefnau ar gyfer adfer yn dilyn

trychineb

Cwestiwn 102: Cadarnhewch fod eich cynllun ar gyfer adfer yn dilyn trychineb ar gael i'w archwilio. Oherwydd rhesymau diogelwch, PEIDIWCH â chyflwyno eich cynllun adfer a thrychineb gyda'ch cais. □

Y dyddiad pan gafodd y cynllun ei adolygu ddiwethaf	

Cwestiwn 103: Esboniwch sut y cafodd eich cynllun a'ch gweithdrefnau eu datblygu, eu dosbarthu, eu profi'n rheolaidd, eu hadolygu a'u defnyddio yn ôl y galw.
(dim mwy na 300 gair)

ADRAN 3: Rhanddeiliaid a'u Profiadau

3.1 Polisi Mynediad

Cwestiwn 104: Disgrifiwch eich cymuned a'ch rhanddeiliaid, gan gyfeirio at y diffiniadau yn y canllawiau. (dim mwy na 500 gair)

Cwestiwn 105: Cyflwynwch gopi o'ch polisi (neu gyfres o bolisïau) ar fynediad a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon. Nid oes un model na thempled safonol ar gyfer polisi mynediad. Bydd y penderfyniad ynghylch fformat yn dibynnu ar yr hyn sydd fwyaf addas i'ch sefydliad chi.

Cwestiwn 106: Disgrifiwch sut y caiff y polisïau hyn eu cyfathrebu i randdeiliaid. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 107: Disgrifiwch sut y mae eich gwasanaeth archifau yn sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth ynghylch mynediad at archifau yn cael ei dynodi, ei defnyddio, ei hadolygu a'i chyfathrebu i randdeiliaid. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 108: Disgrifiwch eich proses o lunio penderfyniadau ynghylch sefydlu unrhyw gyfyngiadau mynediad anstatudol. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 109: Nodwch a yw eich gwasanaeth archifau, neu'r rhiant-sefydliad, yn meddu ar ddyfarniadau/achrediad sicrwydd ymwelwyr neu wasanaeth cwsmeriaid a ddilyswyd yn allanol (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**:** Nid yw'n ofynnol cymryd rhan mewn gwobrau/cynlluniau ymwelwyr i gael Achrediad Gwasanaethau Archifau ond gall fod yn dystiolaeth werthfawr o ymrwymiad i ofal cwsmer.

Dyfarniad	Gwasanaeth	Rhiant-sefydliad	Dyddiad Adolygu
Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid	☐	☐	
VAQAS	☐	☐	
VAQAS Cymru	☐	☐	
VisitScotland	☐	☐	
Arall	☐	☐	

Cwestiwn 110: Os mai 'arall' oedd eich dewis, nodwch y manylion isod: (dim mwy na 50 gair)

Cwestiwn 111: Atodwch gopi o'ch ardystiad a ddilyswyd yn allanol a'i nodi yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

Cwestiwn 112: Os nad yw eich gwasanaeth archifau yn meddu ar ardystiad a ddilyswyd yn allanol, disgrifiwch isod eich dull gweithredu er mwyn sicrhau y darperir ar gyfer pob rhanddeiliad. (dim mwy na 500 gair)

3.2 Cynllunio Mynediad a Chynlluniau Mynediad

Gofyniad 3.2.1 Deall eich cymuned a dadansoddi ei hanghenion

Cwestiwn 113: Sut ydych chi'n nodi ac yn dadansoddi anghenion cymunedau a rhanddeiliaid mewn perthynas â darparu mynediad i gasgliadau a gwasanaethau? (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 114: Rhowch un enghraifft neu fwy o sut yr ydych yn adnabod ac yn nodi rhanddeiliaid ac yn dadansoddi eu gweithgarwch. Atodwch eich enghraifft (enghreifftiau) a'u rhestru yn y Tabl Tystiolaeth ar ddiwedd y ffurflen hon.

Gofyniad 3.2.2 Cynlluniau wedi'u dogfennu i wella mynediad

Cwestiwn 115: Sut ydych chi'n defnyddio'r dadansoddiad rhanddeiliaid hwn i gynllunio mynediad ac allgymorth i gasgliadau a gwasanaethau sy'n briodol i faint a chenhadaeth eich gwasanaeth archif? (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 116: Disgrifiwch eich cynlluniau ar gyfer gwella mynediad i gasgliadau a gwasanaethau a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd, mewn ymateb i anghenion a diddordebau eich cymuned. (dim mwy na 300 gair)

Neu lanlwythwch ddogfen gynllunio ar welliannau mynediad os oes gennych chi un.

Cwestiwn 117: Ydych chi'n disgwyl newidiadau yn ystod y tair blynedd nesaf a fyddai'n cael effaith fawr ar eich cynlluniau mynediad (e.e. adeilad newydd) ac os ydych, sut fath o effaith fyddai hynny'n ei gael? (dim mwy na 300 gair)

3.3 Gwybodaeth, Gweithdrefnau a Gweithgareddau yn ymwneud â Mynediad

Gofyniad 3.3.1 Mynediad at gasgliadau a gwasanaethau

Cwestiwn 118: Ydych chi'n darparu mynediad ar y safle at gasgliadau a gwasanaethau?

Ydym ☐ Ewch ymlaen i gwestiwn 117

Nac ydym ☐ Ewch ymlaen i gwestiwn 121

Cwestiwn 119: Disgrifiwch sut yr ydych chi'n darparu mynediad at gasgliadau a gwasanaeth ar y safle gan gynnwys patrwm yr oriau agor, ac unrhyw drefniadau 'apwyntiadau yn unig' y tu allan i oriau gwaith arferol. (dim mwy na 300 gair).

Cwestiwn 120: Os yw eich gwasanaeth yn cadw casgliadau analog oddi ar y safle, nodwch sut rydych yn rhoi mynediad i ddefnyddwyr i'r casgliadau hyn. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 121: Cyfleusterau cyhoeddus

Cadarnhewch pa gyfleusterau cyhoeddus sydd ar gael i ymwelwyr â'r safle (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

☐	Toiledau	☐	Arlwyo/lluniaeth ysgafn
☐	Lle i barcio ceir	☐	Mynediad i'r we
☐	Ystafelloedd cyfarfod	☐	Mynediad da at gludiant cyhoeddus
☐	Cyfleusterau i ganiatáu mynediad cynhwysol i bobl ag anableddau	☐	Arall

Cwestiwn 122: Os mai 'arall' oedd eich dewis, neu os ydych yn dymuno esbonio, nodwch hynny yma. (dim mwy na 100 gair)

Cwestiwn 123: Disgrifiwch sut yr ydych chi'n darparu mynediad oddi ar y safle i gasgliadau a gwasanaethau (h.y. nid yw'n angenrheidiol ymweld â phrif leoliad y gwasanaeth archifau, gan gynnwys mynediad digidol). (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 124: Esboniwch sut y mae eich trefniadau mynediad ar y safle ac oddi ar y safle wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion eich defnyddwyr, gan ystyried y paramedrau a'r cyfyngiadau y mae eich gwasanaeth yn gweithredu ynddo. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 125: Disgrifiwch sut rydych yn mynd ati'n benodol i roi sylw i anghenion defnyddwyr ag anableddau ac anghenion mynediad penodol eich gwasanaeth. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 126: Disgrifiwch sut y caiff gwybodaeth ymarferol ar sut i gael mynediad at gasgliadau a gwasanaethau archifau, boed y rheiny ar y safle neu fel arall, ei chyfathrebu i randdeiliaid. (dim mwy na 300 gair)

Gofyniad 3.3.2 Gweithdrefnau ar gyfer rhoi mynediad i ddefnyddwyr

Cwestiwn 127: Nodwch y gweithdrefnau mynediad sydd ar waith a disgrifiwch sut y caiff y rhain eu cyfathrebu i ddefnyddwyr:

Gweithdrefnau Mynediad		**Dull Cyfathrebu**
☐	Cofrestru darllenwyr	
☐	Archebu seddau a systemau archebu	
☐	Sesiwn gynefino i ddefnyddwyr newydd	
☐	Gweithdrefnau ar gyfer defnyddwyr sefydliadol mewnol lle mae'r rhain yn wahanol i weithdrefnau cyhoeddus	
☐	Defnyddio cymhorthion canfod	
☐	Archebu a dychwelyd dogfennau	
☐	Gwneud ymholiad oddi ar y safle	
☐	Mynediad arbennig at ddogfennau 'caeedig' neu 'anaddas'	

☐	Trin dogfennau	
☐	Cael copïau (ar y safle ac oddi arno)	
☐	Cyflwyno sylwadau neu gŵynion	
☐	Cael mynediad at gofnodion neu fynegeion ar wefannau sy'n bartneriaid	
☐	Gwasanaeth ymchwil (am dâl neu fel arall/mewnol ac allanol)	
☐	Trefn ar gyfer tynnu llun dogfennau	
☐	Arall	

Cwestiwn 128: Os mai 'arall' oedd eich ateb, neu fod angen i chi esbonio, nodwch hynny isod. (dim mwy na 100 gair)

Cwestiwn 129: Amlinellwch sut y trefnir bod cofnodion digidol-anedig ar gael i'ch rhanddeiliaid, os yw hynny'n briodol i'ch cenhadaeth a'ch pwrpas. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 130: Os ydych yn darparu mynediad i gofnodion digidol-anedig, amlinellwch y gweithdrefnau sydd ar gael i reoli mynediad at ddata sensitif. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 131: Amlinellwch sut y trefnir bod cofnodion clyweledol a chofnodion ar fformat arall ar gael i'ch defnyddwyr, os yw hynny'n briodol i'ch cenhadaeth a'ch pwrpas, ac os nad ydynt wedi'u cynnwys uchod. (dim mwy na 300 gair)

Cwestiwn 132: Disgrifiwch eich prosesau ar gyfer adolygu gwybodaeth a gweithdrefnau mynediad. (dim mwy na 300 gair)

Gofyniad 3.3.3 Mae sawl dull mynediad ar gael

Cwestiwn 133: Gan roi sylw dyledus i'r diffiniad o fynediad, disgrifiwch yr amrywiol ffyrdd yr ydych yn darparu mynediad i'ch cymuned at y casgliadau a'r gwasanaethau archifau. Gall hyn fod yn annibynnol neu mewn partneriaeth ag eraill, ar y safle neu oddi arno ac yn bersonol neu o bell. (dim mwy na 400 gair)

Lanlwythwch neu rhowch ddolen i gefnogaeth atodol pan fo ar gael.

Tabl tystiolaeth y cais

Nodwch isod y dystiolaeth yr ydych yn dymuno ei chyflwyno ar gyfer pob cwestiwn ar y ffurflen gais.

Dogfennau polisi

Ni all dogfen bolisi fod yn gadarn os yw wedi dyddio neu os yw wedi'i hysgrifennu ar wahân heb gymeradwyaeth. I brofi cadernid y dogfennau polisi, rhestrwch bob dogfen bolisi a gyflwynwyd, ynghyd â'r dyddiad cymeradwyo a sut y cawsant eu cymeradwyo. Pan yn berthnasol, dylid atodi tystiolaeth o gymeradwyaeth.

Rydym yn cydnabod y gallai rhai sefydliadau ddirprwyo pwerau i gymeradwyo polisïau i'r staff. Yn yr achosion hyn, byddwn yn disgwyl tystiolaeth o'r ddirprwyaeth hon ar ffurf swydd-ddisgrifiad neu gofnod wedi'i lofnodi o gyfarfod.

Os caiff y dogfennau eu cyhoeddi ar-lein, disgrifiwch yr URL a rhif/dyddiad cyhoeddi'r fersiwn berthnasol o'r ddogfen.

Rhif y Cwestiwn ar y ffurflen gais	Teitl(au) Dogfen Dystiolaeth	URL	Adolygwyd ddiwethaf	l'w adolygu nesaf	Dull cymeradwyo (Cyfarfod/pwerau dirprwyedig/arall)
Cwestiwn 103	***Polisi mynediad***		***2017***	***2020***	***Pwerau dirprwyedig i reolwr y gwasanaeth archifau***
ditto	***Polisi digidol***		***2018***	***2021***	***Cymeradwyaeth Deilydd y Portffolio***
Cwestiwn 112	***Gwerthusiad rhanddeiliaid***		**2017**	**Amherthnasol**	**Amherthnasol**

Tabl tystiolaeth y cais

Os cymeradwyir y polisi drwy bwerau dirprwyedig, wnewch chi ddisgrifio'r pwerau hyn isod a darparu tystiolaeth, y dylid ei rhestru ar y ffurflen uchod: